

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn un o blith 47 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DG ac yn un o blith y 6 Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig, yn dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn:

- buddsoddi yn y dyfodol drwy helpu pobl o bob oed i werthfawrogi a deall bywyd gwylt yn well;
- prynu a rheoli gwarchodfeydd natur;
- ymgymryd â phrosiectau sydd o fudd i fywyd gwylt mewn trefi ac yng nghefn gwlad;
- herio datblygiadau sy'n bygwth cynefinoedd bywyd gwylt;
- gweithio gyda'r cyhoedd, cymunedau, perchnogion tir, cyngorau lleol ac eraill i warchod bywyd gwylt ar gyfer y dyfodol.

Os hoffech helpu i gefnogi cadwraeth bywyd gwylt drwy ddod yn aelod neu'n wirfoddolwr, neu os hoffech wybodaeth am warchodfeydd natur lleol, cysylltwch â:

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Pencadlys ac Aelodaeth

376 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1YE

01248 351541

e-bost: nwwt@wildlifetrustswales.org

Elusen Gofrestredig: 230772

Cwmni Cyfyngedig: 773995

www.northwaleswildlifetrust.org.uk

The North Wales Wildlife Trust is one of 47 Wildlife Trusts across the UK and one of 6 Welsh Wildlife Trusts.

We are a registered charity, dependent on the support of our members and donations.

The North Wales Wildlife Trust

- invests in the future by helping people of all ages to gain a greater appreciation and understanding of wildlife;
- acquires and manages nature reserves;
- undertakes projects to benefit wildlife in towns and countryside;
- challenges developments which threaten wildlife habitats;
- works with the public, communities, landowners, local councils and others to protect wildlife for the future.

If you would like to help support wildlife conservation by becoming a member or volunteer, or would like information about local nature reserves, please contact:

**North Wales Wildlife Trust
Headquarters & Membership**


376 High Street, Bangor, Gwynedd LL57 1YE

01248 351541

email: nwwt@wildlifetrustswales.org

Registered Charity No. 230772

Company No. 773995



Lleoliad a mynediad

Gwelir y warchodfa ar arfordir gogleddol Ynys Môn, ryw ddwy filltir i'r gorllewin o Orsaf Ynni Niwclear Yr Wylnfa. Mae arwyddion ar ei chyfer o'r A5025 yn Nhregele. Er bod y ffydd sy'n arwain i'r safle'n gul, ceir dau faes parcio mawr gerllaw'r warchodfa.

OS 1:50,000 Sheet 114 ac Explorer 262.

Cyf. Grid: SH331932.

Location and access

The reserve is on the north coast of Anglesey, about two miles west of Wylfa Nuclear Power Station and sign-posted from the A5025 at Tregele. Although the roads to the site are narrow, there are two large car parks adjacent to the reserve.

OS 1:50,000 Sheet 114 and Explorer 262.

Grid ref. SH331932.



Prif fotograff y clawr blaen gan Lin Cummins.
Y fotograffau eraill i gyd gan Ben Stammers,
oni bai y nodir yn wahanol.

Front cover main photograph by Lin Cummins.
All other photographs by Ben Stammers,
unless otherwise indicated.

antenna creative 07772 629063 Papur wedi'i ailiyglu 100% recycled paper

**Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru**
North Wales
Wildlife Trust



Gwarchodfa Natur *Cemlyn* Nature Reserve



Gwarchod Natur ar gyfer y Dyfodol
Protecting Wildlife for the Future

Ymweld â'r Warchodfa

Gall cerdded bob cam ar hyd Esgair Cemlyn fod yn straen ac mae'r gro mân serth yn ei gwneud yn anaddas i bramiau neu gadeiriau olwyn. Gellir gwyllo'r lagŵn a'r ynysoedd o'r ffordd yn arwain i Fryn Aber, ond cofiwch ystyried defnyddwyr eraill y ffordd bob amser.

Rhwnn diwedd Ebrill a mis Awst, mae'n ofynnol i ymwelwyr gerdded ar ochr y môr i'r esgair, rhag tarfu ar y casgliad o forwenoliaid. Dilynwch y cyngor a'r wybodaeth a ddarperir ar yr arwyddion yn ystod yr adeg yma a waeth pa adeg o'r flwyddyn yw hi, cofiwch fod yn ymwybodol o'r effaith y gallwch ei chael ar yr adar ar y lagŵn neu'r esgair. Os ydych yn berchen ar gi, ystyriwch fywyd gwylt y safle a chadwch eich ci ar ddeuny bob amser. Ni chaniateir pysgota, ymdrochi na gyrru cychod yn y lagŵn.

Tua awr bob ochr i'r llanw uchel, ni cheir mynediad i'r warchodfa o faes parcio Bryn Aber.

Mae Stad Cemlyn yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Prydlesir y safle o amgylch y lagŵn i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, sy'n ei reoli fel gwarchodfa natur. Bydd wardeniaid y warchodfa (rhwng misoedd Mai ac Awst) yn fwy na pharod i'ch helpu neu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Visiting the Reserve

Walking the full length of Esgair Cemlyn can be strenuous and the steep shingle makes it unsuitable for prams or wheelchairs. The lagoon and islands can be viewed from the road to Bryn Aber but please be considerate towards other road users.

Between late April and August visitors are requested to walk on the seaward side of the ridge to reduce disturbance to the tern colony. Please follow the advice and information provided on signs at this time and, whatever the time of year, be aware of the impact you can have on birds on the lagoon or ridge. If you are a dog owner please consider wildlife and keep your dog on a lead at all times. Fishing, bathing and boating are not allowed in the lagoon.

Around an hour either side of high tide there is no access to the reserve from the Bryn Aber car park.

The Cemlyn Estate is owned by the National Trust. The area around the lagoon is leased by the North Wales Wildlife Trust who manage it as a nature reserve. The reserve wardens (May to August) will be happy to help you or answer any questions.



Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn

Dynodir AHNE'oedd er mwyn gwarchod a hyrwyddo harddwch naturiol cefn gwlad ac arfordir Cymru a Lloegr. Yn ogystal â diwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol, mae AHNE'oedd o gymorth i warchod y tirlun, y ddaeareg, y planhigion a'r anifeiliaid.

Dynodwyd AHNE Ynys Môn yn 1966 a hon yw'r fwyaf yng Nghymru, yn gorchuddio ardal o 21,500 hectar; oddeutu traean o'r ynys. Gweinyddir AHNE Ynys Môn gan Wasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor Sir.

Isle of Anglesey Area of Outstanding Natural Beauty (AONB)

AONBs are designated to conserve and enhance the natural beauty of the countryside and coastline of Wales and England. As well as fulfilling the social and economic needs of local communities, AONBs help to protect the landscape, geology, flora and fauna.



The Isle of Anglesey AONB was designated in 1966 and is the largest in Wales, covering an area of 21,500 hectares; approximately a third of the island. The Isle of Anglesey AONB is administered by the County Council's Countryside Service.

**Mae tirlun a chynefin unigryw a chwbl
drawiadol Cemlyn yn ganlyniad i rymoedd
naturiol eithafol ynghyd â chyfraniad gan ddyn.
Mae ei nodweddion a'i bywyd gwylt nodedig
yn ddeinamig, yn amrywiol ac yn fyrhoedlog.**

Mae Esgair Cemlyn, yr esgair o ro mân ar dro, yn rhannu'r môr agored oddi wrth lagŵn bâs, hallt. Fe'i crëwyd pan fu i gasgliad anferth o gerrig ffurffio pentwr mawr ar draws Bae Cemlyn yn ystod storm enfawr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r Esgair gyfan yn symud i mewn at y tir flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae'r tywydd yn parhau i'w siapio, gyda phroffil gwahanol, wedi'i gerflunio gan y môr, yn ymddangos bob blwyddyn, gan ddibynnu ar stormydd y gaeaf.

Mae cynefin yr esgair yn addas i blanhigion sy'n hoff o amodau garw, yn cynnwys Bresych y Môr, sy'n tyfu'n union allan o'r gro mân, a Betsys y Môr, a geir ar hyd llinell y marian. Yn y pridd tenau ar ben yr esgair, ceir clystyrau o Ludlys Arfor, Clustog Fair a'r Pabi Corniog Melyn. Hefyd mae'r esgair yn gartref i adar yn magu – mae'r Cwtiad Torchog a Phioden y Môr ill dau'n nythu yng nghanol y cerrig mân ond mae'r ffaith bod lefel y môr yn codi'n golygu y bydd yr esgair yn debygol o gael ei rhannu ryw dro, ac felly bydd presenoldeb yr holl rywogaethau hyn dan fygythiad.

Y lagŵn yw'r ffocws ar gyfer yr olygfa fywyd gwylt enwocaf yng Nghemlyn – sef y morwennol yn ymgasglu yn yr haf. Mae'r Morwennol Cyffredin, Morwennol y Gogledd a'r Morwennol Pigddu i gyd yn nythu'n rheolaidd ar yr ynysoedd ym mhen gorllewinol y warchodfa. Mae Cemlyn yn safle o bwysigrwydd

cenedlaethol ar gyfer yr adar môr mudol, gosgeiddig hyn ac yn un o'r llefydd gorau ar gyfer eu gweld yn agos.

Ffurfiwyd y lagŵn drwy adeiladu cored yn y 1930au; cyn hynny roedd y safle'n gors halen lanwol. Bellach mae'n gynefin diddorol gyda chyfrannau amrywiol o ddŵr halen a chroyw, ble mae creaduriaid arbenigol yn gwneud eu cartref. Mae'r Mingrwn a physgod cregyn a chramenogion amrywiol i'w gweld yma ac, yn y gaeaf, gall nifer fawr o adar rhydio a hwyaid fod yn bresennol. Rheolir lefel y lagŵn er budd y morwennol sy'n magu yma.

Mae lleoliad Cemlyn a'i gymysgedd o gynefinoedd yn golygu ei fod yn lle rhagorol i adar mudol ac mae sawl aderyn prin wedi'i gofnodi yma. Mae'r caeau, y gwlybdir a'r prysgwydd o amgylch y warchodfa'n werth eu harchwilio bob amser ac maent yn cynnig cynefin magu ar gyfer Clochdar y Cerrig, y Llwydfron a Thelor yr Hesg. Mae pentir cyfagos Trwyn Cemlyn yn safle gwych i wylia'r môr ac mae llamhidyddion, morloï a dolffiniaid wedi'u gweld yn rheolaidd oddi yma, yn ogystal â llawer o adar môr.

Cemlyn's unique, spectacular landscape and habitat are the result of extreme natural forces, combined with the legacy of human involvement. Its distinctive features and wildlife are dynamic, fluctuating and transient.

Esgair Cemlyn, the curving shingle ridge, divides open sea from a shallow, brackish lagoon. It was created when masses of stones were heaped up across Cemlyn Bay during a huge storm in the 19th Century. The whole Esgair inches inland year by year, and the weather continues to shape it, with a different sea-sculpted profile appearing annually, depending on winter storms.

The ridge as a habitat suits plants specialising in harsh conditions, including Sea Kale, which grows straight out of the shingle, and Sea Beet, found along the drift-line. In the thin soil of the ridge-top there are clumps of Sea Campion, Thrift and Yellow-horned Poppy. The ridge is also home to breeding birds - Ringed Plover and Oystercatcher both nest amongst the pebbles, although sea-level rise means that the ridge is likely to be breached sometime, making these species' presence vulnerable.

The lagoon is the focus of Cemlyn's most famous wildlife spectacle - its summer tern colony. Common, Arctic and Sandwich Tern all regularly nest on the islands at the western end of the reserve. Cemlyn is a nationally important site for these graceful, migratory seabirds and one of the best places to see them close-up.

Gwarchodfa Natur *Cemlyn* Nature Reserve




Bwrned Chwe Smotyn
Six-spot Burnet Moth



Clustog Fair
Thrift



Hwyaden Lygad Aur
Goldeneye



Pabi Corniog Melyn
Yellow Horned Poppy



Madfall Cyffredin
Common Lizard



Cwtiad Torchog
Ringed Plover